# CYLCHLYTHYR RHIENI/GOFALWYR

Haf 2025

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol**

## Croeso

Croeso i gylchlythyr yr haf i rieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i gefnogi eich plentyn os yw'n gadael addysg yr haf hwn. Fe glywch chi gan Alison Alford, sy'n rhannu ei diwrnod tebygol fel cynghorydd gyrfa yng Nghanolfan Addysg y Bont yn Llangefni. Byddwch hefyd yn clywed am y cyfleoedd rhagorol a roddir i ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Woodlands yng Nghaerdydd i ddatblygu eu dealltwriaeth o fyd gwaith trwy ein gwaith gyda chyflogwyr. Gobeithiwn y bydd ein cylchlythyr haf yn ddefnyddiol i chi wrth gefnogi eich plentyn gyda'i gamau nesaf.

## Ein cyflawniadau

Rydym yn falch o'n cyflawniadau wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion. Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025:

**Mynychodd 1,310 o ddisgyblion gyfweliadau gyrfaoedd**

**Cysylltodd 3,018 o rieni â ni am gymorth**

**Cymerodd 383 o ddisgyblion ran mewn sesiynau grŵp gyrfaoedd**

**Mynychodd 1,337 o ddisgyblion weithgareddau gyda chyflogwyr**

## Llais rhieni

Yn ein cylchlythyr gwanwyn, gofynnwyd i rieni a oedd yn hapus i rannu eu hadborth a'u barn ar ein gwasanaethau gysylltu drwy anfon neges e-bost i rhieni@gyrfacymru.llyw.cymru. Diolch i'r holl rieni hynny a gysylltodd. Mae arolwg ymgynghori bellach wedi'i rannu gyda chi. Hoffem i gynifer o rieni â phosibl gwblhau'r arolwg (a ddylai gymryd tua phum munud i'w gwblhau). Cliciwch ar y ddolen isod i gwblhau'r arolwg:



Arolwg Ymgynghori i Rieni

**Diolch!**

# Cynghorydd Gyrfa

## Diwrnod ym mywyd

Mae cerdded i mewn i Ganolfan Addysg y Bont bob amser yn uchafbwynt yn fy wythnos. Rwy'n cael fy nghyfarch â gwên, cynhesrwydd ac wynebau cyfarwydd. Mae disgyblion yn galw fy enw pan fônt yn fy ngweld yn cyrraedd ac yn gofyn pwy ydw i yno i'w weld.
Dros y blynyddoedd, rydw i wedi dod i adnabod llawer o'r bobl ifanc yn dda trwy fy rôl fel cynghorydd gyrfa ADY, ac mae pob ymweliad yn fy atgoffa pa mor ystyrlon a gwerth chweil mae fy ngwaith mewn gwirionedd.

### 8:45am – Cyrraedd yr ysgol

Rwy'n cyrraedd y dderbynfa, yn cofrestru yn yr ysgol, ac yn cwrdd â'r athro dosbarth i drafod argaeledd y disgyblion a threfnu cyfweliadau gyrfaoedd ar gyfer y diwrnod. Unwaith y bydd y disgyblion yn dychwelyd o'r gwasanaeth, rydym yn cyfarch ein gilydd, ac rwy'n treulio tua deng munud yn arsylwi ar drefn y bore. Mae pob dysgwr yn rhannu sut maen nhw'n teimlo a beth gawson nhw i de'r noson cynt – defod hyfryd rwy'n aml yn ymuno â hi (er bod eu prydau bwyd fel arfer yn gwneud i mi deimlo ychydig yn genfigennus!). Mae'n ffordd hamddenol, anffurfiol o ddechrau'r dydd ac mae'n helpu i osod naws gadarnhaol ar gyfer dysgu.

### 9.15am – Cyfweliadau gyrfaoedd

Rwy'n dechrau cyfres o gyfweliadau gyrfaoedd 30 i 45 munud o hyd. Oherwydd anghenion dysgu ychwanegol amrywiol y disgyblion, efallai y bydd rhai yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio neu gyfathrebu am gyfnodau hir. Er mwyn rhoi cymorth iddynt, rwy'n aml yn addasu fy null gweithredu. Er enghraifft, gallem chwarae gêm fel Jenga, lle mae'r disgybl yn ateb cwestiwn bob tro y caiff bloc ei dynnu, neu ddefnyddio cardiau chwarae i ysgogi trafodaeth. Teclyn defnyddiol arall yw'r mat siarad, lle mae disgyblion yn rhoi lluniau ar fat i ddangos beth maen nhw'n ei fwynhau (wrth ymyl yr wyneb sy'n gwenu) a beth maen nhw'n ei gasáu (wrth ymyl yr wyneb trist). Mae'r dulliau rhyngweithiol hyn yn helpu i greu amgylchedd hamddenol, gan annog cyfathrebu gonest. Maen nhw'n caniatáu i mi archwilio eu diddordebau, eu hoffterau a'r hyn maent yn ymddiddori ynddo – pob un yn gliwiau pwysig wrth nodi llwybrau gyrfa posibl.



## Alison Alford

**Swydd:** Cynghorydd Gyrfa.

Rwy'n gweithio yn adran gwasanaethau i bobl ifanc Gyrfa Cymru, yn benodol yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Canolfan Gyrfa:**

Bangor a Chaergybi

**Ysgol neu goleg cysylltiedig:**

Rwy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghanolfan Addysg y Bont a'r Adran Sgiliau Byw'n Annibynnol yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn Llangefni.

### 12:00 PM – Cinio a galwadau i rieni

Rwy'n mynd allan am ychydig o awyr iach, yna'n dychwelyd i fwynhau paned o de gydag unrhyw athrawon nad ydynt ar ddyletswydd ar y pryd. Rwy'n manteisio ar y cyfle i ddarllen negeseuon e-bost a gwneud galwadau i rieni sy'n pryderu am gynlluniau eu plentyn ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhieni hyn eisiau cyngor ar opsiynau eu plentyn ac rwy'n sicrhau fy mod yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt.

### 1:30 PM – Cyfarfod adolygu

Mae'r prynhawn yn dechrau gydag "adolygiad budd" i fyfyriwr sy'n gadael yr ysgol sydd ag anghenion dysgu dwys. Er bod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn yr ysgol, mae'n cael ei arwain gan y Wasanaethau Cymdeithasol i benderfynu ar y camau gweithredu gorau ar gyfer disgybl y bernir nad oes ganddo'r gallu i wneud penderfyniadau am ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Fe'i cynhelir yn ystafell gyfarfod yr ysgol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr wasanaethau cymdeithasol, pennaeth cynorthwyol yr ysgol a rhiant y disgybl.

Rydyn ni'n gwybod nad yw coleg addysg bellach lleol yn opsiwn hyfyw oherwydd anghenion y myfyriwr, felly rydyn ni'n archwilio dewisiadau eraill fel darpariaeth coleg arbenigol a gwasanaethau gofal dydd. Ar ôl gwerthuso'r manteision a'r anfanteision, gwneir y penderfyniad mai mynychu coleg arbenigol fyddai'r ffordd orau o gefnogi annibyniaeth a dysgu'r disgybl. Rydym yn cytuno ar y camau nesaf, gan gynnwys rhannu cofnodion y cyfarfod erbyn diwedd yr wythnos gyda Llywodraeth Cymru i archwilio cyllid posibl ar gyfer yr opsiwn coleg arbenigol.

### 3:00 PM – Gwaith papur a gwaith dilynol

Pan fydd y disgyblion yn gorffen am y diwrnod, rwy'n dogfennu gweithgareddau'r dydd, gan gynnwys manylion o'r cyfweliadau gyrfaoedd, galwadau i rieni amser cinio a'r cyfarfod adolygu. Rwyf hefyd yn gwneud nodyn o unrhyw ddisgyblion y gallai fod angen cyfarwyddyd pellach arnynt ac yn trefnu apwyntiadau dilynol yn fy nyddiadur. Byddaf yn cysylltu â rhieni i roi diweddariad iddynt ar y camau nesaf, fel mynychu nosweithiau agored y coleg neu eu hatgoffa am ddigwyddiadau gyrfaoedd sydd ar ddod.

## Rhan orau'r swydd:

Y rhan orau o fod yn gynghorydd gyrfa ADY yw helpu pobl ifanc i ddarganfod beth maen nhw'n ei fwynhau, beth maen nhw'n gwneud yn dda, a beth y gallen nhw fod eisiau ei wneud yn y dyfodol – ni waeth beth yw eu heriau. Mae'n ymwneud â meithrin ymddiriedaeth, hybu hyder, a sicrhau eu bod yn teimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi a'u deall wrth iddynt gymryd eu camau nesaf.

Mae gweld eu balchder a'r hyn y gallant ei gyflawni yn hynod werth chweil.




## Cerdyn post 'beth nesaf?'

Bydd cynghorwyr gyrfa yn cefnogi dysgwyr mewn sesiynau grŵp a chyfweliadau gyrfa a gallant gytuno ar restr o gamau nesaf gyda'ch plentyn. Gallai'r camau nesaf gynnwys edrych ar yr adran Fy Nyfodol ar ein gwefan, cwblhau'r cwisiau ac edrych ar ba sgiliau sydd ganddyn nhw.

Gobeithio y bydd eich plentyn yn dod â'r cerdyn post 'beth nesaf?' adref i'w ddangos i chi, ynghyd â manylion cyswllt y cynghorydd ar gyfer unrhyw gymorth pellach

# Cymorth i ysgolion gan gyflogwyr

Fy enw i yw Adrian Cole ac rwy'n gynghorydd cyswllt busnes yng Nghaerdydd. Fy rôl i yw dod ag ysgolion a busnesau at ei gilydd i wella'r rhaglen gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn ysgolion.

Un o'r ysgolion rwy'n eu cefnogi yw Ysgol Woodlands yng Nghaerdydd. Rwy'n gweithio'n agos â staff yn yr ysgol i nodi cyfleoedd i gynyddu dealltwriaeth dysgwyr o fyd gwaith a datblygu eu sgiliau. Gall gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr amrywio o ymweliadau â lleoliadau gwaith i weithdai a chyfweliadau ffug.

Dyma gipolwg ar y gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr rydw i wedi'u trefnu ar gyfer disgyblion 15-19 oed yn Ysgol Woodlands hyd yn hyn, y flwyddyn academaidd hon:



Adrian Cole

## Tymor yr hydref

### Welcome Break

Croesawodd staff Welcome Break grŵp o ddysgwyr ar gyfer taith gyrfaoedd i Burger King, KFC, WHSmith, Waitrose a Starbucks. Dysgodd y disgyblion am wahanol swyddi o fewn pob busnes ar y safle.



Welcome Break

### Network Rail

Treuliodd y disgyblion amser yn swyddfa Network Rail i ddatblygu eu sgiliau cyfweld. Rhoddodd staff gyfweliadau un-i-un a darparu adborth llafar ac ysgrifenedig cadarnhaol i bob disgybl. Profiad gwych, cadarnhaol i bawb.



Network Rail

## Tymor y gwanwyn

### Galliford Try

Diolch i'r tîm yn Galliford Try am roi taith addysgiadol iawn i'r disgyblion o amgylch eu safle yng Nghaerdydd. Roedd y disgyblion yn gwisgo hetiau caled a festiau llachar ac fe'u tywyswyd i ben yr adeilad, gan glywed am y gwahanol swyddi gyda'r diwydiant adeiladu a'r cwmni.



Galliford Try

### Asda

Ymwelodd y disgyblion â siop Asda ym Mae Caerdydd ym mis Mawrth. Roedd staff Asda wrth law i siarad am eu swyddi a chafodd y disgyblion gyfle i gasglu archebion cwsmeriaid, prisio nwyddau, gweini cwsmeriaid a defnyddio'r tiliau. Cawson nhw ddiwrnod gwych!

## Storey Arms

Ymwelodd grŵp o ddisgyblion â'r Storey Arms i ddysgu am y swyddi ar y safle. Dewisodd y disgyblion ddillad, esgidiau ac offer ar gyfer grŵp ysgol gynradd, cawsant daith gyrfaoedd o amgylch y cyfleusterau, a choginio bwyd i ymwelwyr yn y ceginau.



Asda



Storey Arms

# Tymor yr haf

## Pizza Hut

Rydw i wedi trefnu i grŵp ymweld â Pizza Hut yng Nghaerdydd yn ystod tymor yr haf. Bydd disgyblion yn dysgu am swyddi o fewn y cwmni a'r diwydiant lletygarwch ac yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth adeiladu bocs pizza. I ginio, byddan nhw'n gwneud eu pizza 12" eu hunain!

## Bute Park

Mae Parc a Choedardd Bute yn gyflogwr cefnogol arall a fydd yn croesawu grŵp o ddysgwyr ym mis Mehefin i ddysgu am arddwriaeth a'r mathau o swyddi sydd ar gael yn y parc.

## Caffi'r Potting Shed yng Nghwrt Insole

Bydd grŵp o ddysgwyr sydd ar hyn o bryd yn dysgu am swyddi mewn caffi yn ymweld â Chaffi'r Potting Shed yng Nghwrt Insole. Byddant yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r offer gwneud coffi a chwblhau tasgau gwaith yn y gegin a'r caffi.

"Mae gweithdai Gyrfa Cymru wedi cael effaith drawsnewidiol ar ein disgyblion 14-19 oed, gan roi cipolwg amhrisiadwy iddynt ar wahanol lwybrau gyrfa a diwydiannau.

"Trwy brofiadau ymarferol mewn sefydliadau enwog fel Asda, Pizza Hut, Galliford Try, Meithrinfeydd Planhigion Parc Bute, Canolfan Addysg Awyr Agored Storey Arms a Gwasanaethau Welcome Break, mae ein myfyrwyr wedi ennill gwybodaeth ac wedi dysgu sgiliau ymarferol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

"Nid yn unig y mae'r gweithdai hyn wedi ehangu eu dealltwriaeth o gyfleoedd gyrfa posibl ond maent hefyd wedi ennyn brwdfrydedd dros ddysgu a thwf personol.

"Ym mhob lleoliad, roedd disgyblion yn gallu ymgysylltu'n uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol, arsylwi gweithrediadau dydd i ddydd, a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n adlewyrchu senarios swyddi yn y byd go iawn. Er enghraifft, yn Galliford Try Construction, dysgodd myfyrwyr am gymhlethdodau prosiectau adeiladu, ac ym Meithrinfeydd Planhigion Parc Bute, fe wnaethant archwilio pwysigrwydd garddwriaeth a stiwardiaeth amgylcheddol.

"Mae'r profiadau trochi hyn wedi rhoi gweledigaeth gliriach i'n myfyrwyr o'u dyheadau ar gyfer y dyfodol a'r hyder i'w olrhain. Mae'r adborth cadarnhaol gan ddisgyblion a hwyluswyr yn tanlinellu llwyddiant y gweithdai hyn wrth feithrin dull rhagweithiol a gwybodus o gynllunio gyrfaoedd."

Eve Williams, Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Woodlands.

Darllenwch am gyflogwyr eraill sy'n cefnogi ysgolion

↗ Straeon go iawn | Gyrfa Cymru

# Barod am waith?

A yw eich plentyn yn gadael addysg ac yn paratoi ar gyfer y byd gwaith? Dyma ychydig o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael:



## Cyflogaeth â chymorth

Mae asiantaethau cyflogaeth â chymorth yn gweithio gyda phobl i'w helpu i ddod o hyd i waith, dysgu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud swydd, ymgartrefu mewn swydd, a dysgu sut i deithio i'r gwaith.

Dyma'r sefydliadau a fydd yn darparu cymorth:

- Agoriad Cyf (North Wales)
- ELITE Supported Employment (De, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

## Cynlluniau prentisiaeth

Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudio.

Fel prentis, bydd eich plentyn yn cael profiad gwaith, yn dysgu sgiliau newydd, ac yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ennill cyflog. Gall prentisiaethau roi cymorth wedi'i deilwra i'ch plentyn wrth iddo ddysgu a gweithio. Mae rhagor o wybodaeth yma:

Supported Shared Apprenticeships - ELITE Supported Employment

## Swyddi

Mae yna wahanol ffyrdd o chwilio am swyddi. Gallai eich plentyn edrych ar wefannau swyddi, ymuno ag asiantaeth recriwtio neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Gallwch ddod o hyd i ragor o awgrymiadau yma:

Sut ydw i'n dod o hyd i swydd? | Gyrfa Cymru

Gellir dod o hyd i swyddi gwag cyfredol, ledled Cymru, yma:

Bwletin Swydd | Gyrfa Cymru

## Cynllun cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Mae cynllun Hyderus o ran Anabledd yn cefnogi cyflogwyr i wneud y gorau o'r talentau y gall pobl anabl eu cynnig i'w gweithlu.

Gallwch ddod o hyd i'r rhestr o gyflogwyr Hyderus o ran Anabledd yma:

Cyflogwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Hyderus o ran Anabledd – GOV.UK

## Mynediad i waith

Mae deddfwriaeth ac asiantaethau sy'n cefnogi pobl ifanc ag ADY a'u teuluoedd.Mae rhagor o wybodaeth yma:

Deddfwriaeth ac asiantaethau sy'n cynnig cymorth | Gyrfa Cymru

Os yw eich plentyn yn gadael yr ysgol yr haf hwn, efallai y bydd yn teimlo'n nerfus ynglŷn â'r hyn sydd nesaf. Cymerwch gipolwg ar rai o'r fideos hyn o bobl ifanc yn siarad am eu camau nesaf ar ôl gadael yr ysgol

Eich opsiynau ar ôl gadael yr ysgol - YouTube

# Digwyddiadau'r haf





Mae gan Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio haf prysur o'n blaenau wrth i ni gynllunio mynychu Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol eto'r haf hwn.

Bydd gennym raglen o weithgareddau a gweithdai hwyliog ar gael ym mhob digwyddiad.

Dewch i'n gweld yn y lleoliadau canlynol:

- **Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, rhwng 21 a 24 Gorffennaf**
- **Yr Eisteddfod Genedlaethol, Wrecsam, rhwng 2 a 9 Awst.**

Mae digwyddiadau Gyrfa Cymru i'w gweld yma:

↗ gyrfacymru.llyw.cymru/digwyddiadau

Mae digwyddiadau Cymru'n Gweithio i'w gweld yma:

↗ cymrungweithio.llyw.cymru/digwyddiadau

# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

O fis Medi 2025 ymlaen, bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn cwmpasu pob unigolyn ifanc. Ni fydd Gyrfa Cymru bellach yn llunio cynlluniau dysgu a sgiliau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac ni fydd bellach yn rhan o gyflwyno cais am gyllid ar gyfer lleoliadau coleg arbenigol.

## Rydyn ni dal yma i helpu!

Bydd Gyrfa Cymru yn dal i weithio gyda phobl ifanc ag ADY i'w helpu i gynllunio eu dyfodol.

Byddwn yn cyfarfod â phobl ifanc mewn grwpiau a/neu'n unigol.

Gall ein cynghorwyr hefyd fynychu adolygiadau Cynllun Datblygu Unigol i roi gwybodaeth i chi am opsiynau a fydd yn helpu eich plentyn i gyflawni ei botensial a gweithio tuag at ei nodau.

Os ydych chi'n rhiant i unigolyn ifanc sy'n gadael yr ysgol yn y flwyddyn neu ddwy nesaf ac hoffech gael gwybod mwy am yr opsiynau, gallwch gysylltu â'r cynghorydd drwy'r ysgol neu drwy gysylltu â ni'n uniongyrchol.

# Cysylltwch â ni:

→ Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**

→ Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy **www.gyrfacymru.llyw.cymru**

→ Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfaoedd**

→ Anfonwch neges ebost i **post@gyrfacymru.llyw.cymru**

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government